

Datganiad gan y Llywydd ar y gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Fel prif sefydliad democrataidd Cymru, mae gan y Cynulliad ddyletswydd i alluogi Aelodau'r Cynulliad a holl bobl Cymru i gael gwybodaeth am y broses ddemocrataidd yn eu dewis iaith – drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg – ac i gyfrannu'n llawn at y broses honno. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi y dylai Comisiwn y Cynulliad, wrth arfer ei bwerau, cyn belled ag sy'n briodol ac yn rhesymol ymarferol yn yr amgylchiadau, weithredu yn ôl yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal (Atodlen 2 Adran 8(3)). Ers 2007, mae Comisiwn y Cynulliad wedi datblygu ac ehangu'r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gan y Cynulliad yn sylweddol.

Dyletswydd ehangach y Comisiwn o dan y Ddeddf yw darparu eiddo, staff a gwasanaethau at ddibenion y Cynulliad (Adran 27(5)). Mae'r Comisiynwyr (y Llywydd a phedwar Aelod arall a ddewisir gan y Cynulliad) yn gyfrifol yn gorfforaethol am arfer y pwerau a roddir i'r Comisiwn ac am lywodraethu'r sefydliad, a rhaid iddynt weithredu er budd y Cynulliad cyfan. Swyddogaeth y Cynulliad mewn perthynas â'r Comisiwn yw ystyried ac awdurdodi'r defnydd o adnoddau y mae'r Comisiwn yn gwneud cais amdanynt, ac i ddwyn y Comisiwn i gyfrif am y modd y mae'n arfer ei bwerau.

Ym mis Mehefin a mis Gorffennaf eleni, ystyriodd y Comisiwn ei flaenoriaethau strategol mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft a gaiff ei gosod yfory. Ein bwriad oedd cael cyn lleied o gynnydd â phosibl yn y gyllideb ar gyfer 2010-11, er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o gyllideb bloc Cymru ar gael i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus, gan barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol ar gyfer y Cynulliad. Un o'r opsiynau a ystyriwyd oedd cyfieithu Cofnod y Trafodion. Yn ystod cyfarfod y Comisiwn heddiw, ystyriwyd y sylwadau a gyflwynwyd i ni gan Aelodau'r Cynulliad ac eraill. Daethom i'r casgliad y dylem gymryd pedwar prif gam:

Yn gyntaf, byddwn yn parhau i gyfieithu Cofnod y Trafodion o'r Saesneg i'r Gymraeg fel bod cofnod llawn dwyieithog ysgrifenedig yn cael ei gynhyrchu, ond gan wneud hynny o fewn 3 i 10 diwrnod i bob Cyfarfod Llawn.

Yn ail, byddwn yn cyfieithu'r holl drafodion sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth.

O ran trafodion y pwyllgorau, dim ond cyfieithiadau o gyfraniadau Cymraeg sydd erioed wedi eu cyfieithu, ac nid cyfieithiadau o gyfraniadau Saesneg i Gymraeg. Wrth i statws cyfansoddiadol y Cynulliad esblygu, ac wrth i'n rôl ddeddfwriaethol gynyddu, mae'r Comisiwn o'r farn y dylid adolygu hyn yng ngoleuni'r datblygiadau hynny. Fel deddfwrfa ddwyieithog, rydym yn creu Mesurau sydd â'r un gwerth cyfreithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fel egwyddor, dylem sicrhau y gellir trafod effaith y ddeddfwriaeth a wnawn yr un mor hwylus yn y naill iaith a'r llall. Felly, byddwn yn creu cofnod dwyieithog o drafodion y Cyfarfod Llawn a thrafodion pwyllgorau sy'n ystyried Mesurau. Yn benodol, caiff cofnod llawn ei greu yn y ddwy iaith o holl drafodion Cyfnodau 2,3 a 4, yn ogystal â chofnod o'r gwaith craffu mewn pwyllgor ar yr Aelod sy'n gyfrifol am Fesur yn ystod Cyfnod 1. Y Mesur cyntaf y bydd hyn yn gymwys iddo'n llawn fydd Mesur y Comisiwn ei hun i sefydlu Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef y corff annibynnol newydd a fydd yn pennu lefelau cyflog, lwfansau a phensiynau Aelodau'r Cynulliad.

Yn drydydd, byddwn yn cynnal adolygiad annibynnol i ymchwilio i'n darpariaeth o wasanaethau dwyieithog cyn yr adolygiad ffurfiol o Gynllun Iaith y Cynulliad yn 2010.

Yn bedwerydd, byddwn yn cymryd camau i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn gosod sylfaen statudol gref i statws y ddwy iaith a ddefnyddir ym musnes y Cynulliad.

Nid oedd hi erioed yn fwriad yn Neddf Iaith Gymraeg 1993 i osod fframwaith ar gyfer llywio gweithredoedd deddfwrfa genedlaethol. Byddai'n amhriodol yn gyfansoddiadol i'r Cynulliad a'r Comisiwn fod yn atebol i gorff a benodir gan Weinidogion, ac mewn rhai amgylchiadau, yn atebol i'r Gweinidogion eu hunain, pan fo'r Gweinidogion hynny yn eu tro yn atebol i'r Cynulliad. Mewn deddfwrfeydd dwyieithog eraill ceir deddfwriaeth fanwl, gyda gorfodaeth annibynnol y tu ôl iddi, sy'n ymdrin yn benodol â hawliau iaith mewn perthynas â'r corff deddfu. Hyd yn hyn, nid ydym fel Cynulliad wedi cael cyfle i basio deddfwriaeth o'r fath. Fodd bynnag, pan wneir y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar yr iaith Gymraeg, bydd yn rhoi'r pŵer i ni wneud hynny. Mae'r Comisiwn yn bwriadu ystyried y dewisiadau a fydd ar gael i'r Comisiwn pan ddaw'r Gorchymyn dan sylw'n gyfraith, a llunio cyfres o gynigion deddfwriaethol penodol mewn perthynas â'r defnydd o'r ddwy iaith swyddogol yng ngwaith y Cynulliad a'r Comisiwn. Caiff y cynigion hyn eu datblygu ar ôl ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a chyrrff eraill sydd â diddordeb yn y maes.

Mae Comisiwn y Cynulliad eisoes yn sefydliad sy'n batrwm o'r modd y mae'n darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog. O'u cymryd gyda'i gilydd, credwn y bydd y cynigion hyn yn dangos ein hymrwymiad i barhau felly drwy gryfhau statws y Gymraeg yng ngwaith y Comisiwn a'r Cynulliad a hynny mewn ffordd sy'n effeithiol, yn ymarferol ac yn berthnasol.